**CEU 03**

---

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE** | **Culture and the new relationship with the EU**

Ymateb gan: Opera Cenedlaethol Cymru | Evidence from: Welsh National Opera

---

**Cefndir a Chyd-destun**

1. Rydym yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i'r effaith y mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn ei chael ar y sector diwylliannol. Mae gan Opera Cenedlaethol Cymru (WNO) ynghyd â chwmnïau opera eraill yn y DU, berthynas gadarn a sefydlog gyda chwmnïau opera a gwyliau ar dir mawr Ewrop. Cyn i'r DU adael yr UE, arweiniodd y berthynas hon at deithiau a chyngherddau yn ogystal â phartneriaethau chyd-gynhyrchu a chyflogi. Roedd yn sefyllfa gytbwys iawn a weithiodd yn anhygoel o dda ble roedd y tai opera a'r gwyliau opera Ewropeaidd yn cefnogi sector opera a cherddoriaeth glasurol y DU, ac i'r gwrthwyneb. Mae Brexit wedi arwain at lawer o anhrefn yn hyn o beth a hynny oherwydd costau cynyddol a biwrocratiaeth o ran teithio, cludo a mynd ar daith yn yr UE.

2. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae cyfyngiadau teithio at ddibenion gwaith yn ei chael ar ddatblygiad talent artistiaid yn y DU, a beth mae hyn yn ei olygu i ddyfodol y sector.

3. Mae ymadawiad y DU â'r UE hefyd wedi cael effaith ar weithrediad masnachol WNO, yn enwedig o ran ein hapêl o fewn y farchnad opera Ewropeaidd fel cyd-gynhyrchydd a phartner cyflogi, yn ogystal ag ar allbwn a gweithrediadau gweithdy adeiladu setiau masnachol WNO, Gwasanaethau Theatrig Caerdydd (CTS).

**Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio ar draws ffiniau (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru)**

Artistiaid o'r UE ac artistiaid eraill sy'n gweithio yn y DU

4. Mae'r broses sy'n ymwneud â chyflogi artistiaid gwadd i weithio yn y DU yn gymharol syml. Yn achos unrhyw un sy'n dod i weithio i ni nad oes ganddynt hawl i weithio yn y DU, bydd angen naill ai Tystysgrif Nawdd fel y gallant ymgeisio am eu Visa i weithio yn y DU - rhywbeth y gallwn ei ddarparu am gost gymharol isel (£21 fesul Tystysgrif yn achos gweithiwr dros dro), neu lythyr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir gennym ni i gadarnhau eu cyflogaeth os ydynt yn mynd i fod yn gweithio yn y DU am hyd at 1 mis. Gellir darparu'r naill a'r llall yn weddol gyflym, gyda Thystysgrifau Nawdd yn cael eu caniatáu'n awtomatig i ni fel sefydliad noddi. Mae'r dogfennau hyn yn caniatáu iddynt wneud cais am eu Fisa priodol, os oes angen un, a nhw'n sy'n gorfod talu'r costau cysylltiedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen Visa Gweithiwr Creadigol (gwaith dros dro) sydd ar hyn o bryd yn £259 ynghyd â gordal iechyd. Os byddant ond yn gweithio yn y DU am hyd at fis, gallant wneud cais am Fisa Ymwelwyr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir sy'n costio £100.

5. Os yw eu contractau am lai na thri mis, yna ni fydd angen fisa ar artistiaid o'r rhan fwyaf o wledydd, a bydd eu Tystysgrif Nawdd yn cwmpasu cyfnod eu contract, felly ni fyddant yn gorfod talu'r gost bersonol ychwanegol sy'n gysylltiedig â Fisa. Fodd bynnag, os bydd eu contract yn mynd y tu hwnt i dri mis, efallai y bydd angen iddynt wneud cais am Fisa i osgoi problemau gyda'r awdurdodau rheoli ffiniau pan fyddant yn dychwelyd i'w mamwlad.

6. Er ei bod yn gymharol syml i gyflogi artistiaid gwadd, rydym yn gweld bod y DU yn lle llai deniadol i artistiaid rhyngwladol weithio na thir mawr Ewrop. Yn ddiweddar, cawsom ein hunain mewn sefyllfa lle roeddem wedi cyflogi artist gwadd Antipodean i weithio gyda ni, ond fe dynnodd allan. Roedd eisiau symud i Ewrop gyda'i deulu ac wrth edrych ar y gofynion ar gyfer dinasyddiaeth yn yr UE, sylweddolodd nad oedd gweithio yn y DU o unrhyw fudd iddo ac y byddai'n well iddo'n hytrach ddod o hyd i waith ar dir mawr Ewrop.

7. Yn fwy cyffredinol, mae tai opera yn yr UE yn gallu cynnig cyflogau uwch i artistiaid llawrydd nag y byddent yn eu derbyn yn y DU. Os bydd un o'u hartistiaid yn canslo eu contract am ba bynnag reswm, mae artistiaid llawrydd yn cael eu denu'n naturiol gan y posibilrwydd o ffi uwch, hyd yn oed os yw hynny'n golygu canslo cytundeb sydd ganddynt eisoes gydag WNO ar fyr rybudd, rhywbeth yr ydym bellach yn dechrau cael profiad ohono. Mae hyn yn cael nifer o sgîl-effeithiau arnom, gan gynnwys gorfod dod o hyd i artistiaid newydd i gymryd eu lle ar fyr rybudd, addasu ein hamserlenni ymarfer a gwneud gwisgoedd newydd. Yn achos gwneud gwisgoedd newydd ar y funud olaf, rhaid ffactora i mewn yr amser a gymer i brynu deunyddiau. Mae'n cymryd mwy o amser i gael ffabrigau o wledydd yr UE fel Yr Almaen oherwydd biwrocratiaeth o ran tollau a threthi, ac mewn llawer o achosion, mae'n haws eu cael o ardaloedd fel De-ddwyrain Asia, yn enwedig os yw'r amserlen yn dynn.

8. Mae Cyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO wedi'i leoli yn y Weriniaeth Tsiec, ac ers i'r DU adael yr UE, mae wedi cael llawer o broblemau ac oedi wrth safleoedd rheoli ffiniau. Er gwaethaf y ffaith ei fod yn parhau i gael ei gyflogi gan WNO, bob tro y mae'n ymweld â'r DU i bwrpas gwaith ac ymrwymiadau, rhaid iddo gael Llythyr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir neu Dystysgrif Nawdd, ac am y rhan fwyaf o dymhorau nid yw Tystysgrif Nawdd yn cwmpasu'r holl gyfnod y mae'n ofynnol iddo ei dreulio yn y DU. Mae hefyd angen iddo hefyd gario ei gontract cyflogaeth a chopi o ddatganiad banc cyfredol pan mae'n teithio.  Cyn Brexit, roedd yn gallu symud yn rhydd rhwng y Weriniaeth Tsiec a'r DU i weithio.

9. Y tu allan i waith llawrydd, gallwn recriwtio o'r UE ond mae costau'n gysylltiedig â hynny.  Bellach, mae'n rhaid i ni dalu ffioedd fisa i recriwtio unrhyw un sy'n dod o'r UE i weithio gyda ni fel aelod o staff - e.e. fel aelod o ensemble.  Cyn i'r DU adael yr UE, roedd rhai amodau'n gysylltiedig, ond dim costau.

Artistiaid o'r DU sy'n gweithio yn yr UE

10. Yn hanesyddol, mae artistiaid o'r DU yn y byd opera a cherddoriaeth glasurol wedi dibynnu ar allu gweithio'n rhydd yn yr UE. Yn ogystal â pherfformiadau opera, mae hyn yn cynnwys gwaith cyngerdd lle mae cantorion a chwaraewyr yn teithio i mewn ac allan yn llawer amlach.  Ar y cyfan, mae cyflogau ar dir mawr Ewrop yn uwch nag yn y DU, felly hyd yn oed os yw artistiaid eisiau bod yn y DU am y rhan fwyaf o'r amser a chefnogi eu mamwlad, mae angen iddynt weithio dramor er mwyn cadw eu gyrfaoedd yn hyfyw.  Mae tai opera a neuaddau cyngerdd Ewropeaidd hefyd yn cynnig ystod eang o brofiad sy'n llawer mwy na'r hyn y gall artistiaid ei dderbyn gan y DU yn unig, gyda hynny'n helpu i ddatblygu eu sgiliau a chynnal y safon uchel yn y sector.

11. Fodd bynnag, mae llawer mwy o gyfyngiadau erbyn hyn ar artistiaid o'r DU sydd eisiau gweithio yn yr UE. O dan gyfyngiadau'r UE, maent wedi'u cyfyngu i weithio 90 allan o 180 diwrnod dramor yng ngwledydd yr UE (ar sail dreigl), ac mae'r cyfnod hwn yn dechrau o'r eiliad y maent yn cyrraedd y wlad honno, yn hytrach nag ar eu diwrnod cyntaf o waith. Gallant wneud cais am fisa i weithio yn rhywle am fwy o amser, ond mae costau a biwrocratiaeth yn gysylltiedig â hyn, yn ogystal â'r amser y mae'n ei gymryd. Effaith ganlyniadol hyn yw bod y potensial o gyflogaeth i artistiaid Prydeinig yn yr UE yn llawer llai nag yr oedd o'r blaen, ac mae'r costau cysylltiedig hefyd yn gwneud artistiaid o'r DU yn llai deniadol i sefydliadau yn yr UE.

12. Yn anecdotaidd, rydym yn clywed bod tai opera'r UE yn llai tebygol o logi cantorion ifanc o'r DU oherwydd y fiwrocratiaeth gynyddol; mae'n haws ac yn rhatach iddynt logi cymheiriaid o'r UE yn eu lle.

13. Ein pryder yw bod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gallu gweithio yn yr UE mewn sector sydd eisoes dan bwysau, yn gwneud gyrfa o fewn y sector i artist ifanc yn llawer llai deniadol, a hyd yn oed yn fwy felly os ydynt o gefndir incwm is. Fel cwmni, rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth a chyfleoedd i bawb yn y sector, ac mae'r heriau hyn yn achosi pryder cynyddol ar gyfer y dyfodol.

**Effaith trefniadau masnachu newydd ar weithgarwch diwylliannol**

Llogi a chyd-gynhyrchu o fewn yr UE

14. Un o'n ffrydiau incwm yw llogi ein cynyrchiadau i dai opera Ewropeaidd eraill. Yn ogystal â bod yn fenter fasnachol, mae'r swyddogaeth hon yn rhoi hirhoedledd i'n cynyrchiadau ac mae'n rhan o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd. Ers gadael yr UE, mae’n costio o leiaf £5,000 yn fwy i dŷ opera Ewropeaidd logi un o'n cynyrchiadau a hynny oherwydd y costau sy’n gysylltiedig â chludo setiau, gwisgoedd ac offer arall.

15. I gludo un o'n cynyrchiadau i'r UE, mae angen i ni nawr ddefnyddio trwydded ATA; dogfen sy'n caniatáu mewnforio dros dro i'r UE ac sy’n symleiddio'r system tollau. O’r blaen, efallai ein bod wedi defnyddio ein cerbydau ein hunain, ond mae rheolau ynghylch masnach arforol *(‘cabotage’)* (gweler paragraff 18) yn cyfyngu ar hyn ac mae trwydded ATA yn caniatáu mwy o hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae trwydded ATA yn gostus – gall olygu hyd at £5,000 mewn costau ychwanegol - a gall y gwaith gweinyddu paratoadol sydd ei angen i gasglu gwybodaeth ar gyfer y ffurflen gymryd hyd at wythnos ac mae angen dau ddiwrnod ychwanegol i gwblhau'r ffurflen ei hun. Mae angen i ni drosglwyddo'r costau hynny oherwydd nid yw'n fasnachol ymarferol i ni eu hysgwyddo’n llawn. Mae hyn yn golygu ein bod yn ddrytach ac yn llai deniadol i dai opera Ewropeaidd fel partner sy'n llogi.

16. Ffordd arall yr ydym yn cydweithio â thai opera a phartneriaid eraill yw cyd-gynhyrchu gyda nhw. Mae hyn yn ein galluogi i rannu costau creu cynhyrchiad newydd tra'n elwa o allu perfformio am y tro cyntaf ym mhob un o'n lleoliadau. Mae cyd-gynhyrchu yn golygu rhannu adnoddau fel adeiladu setiau a gwneud gwisgoedd a chludo'r rhain rhwng y gwahanol leoliadau cyd-gynhyrchu ar gyfer eu perfformiadau. Am resymau tebyg i’r rhai sy’n gysylltiedig â llogi, mae hyn bellach yn ein gwneud yn llai deniadol fel cyd-gynhyrchydd i dai opera yn yr UE oherwydd y costau, yr amser a’r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â storio cynyrchiadau, anfon cynyrchiadau i bartneriaid cyd-gynhyrchu, a'u derbyn yn ôl.

17. Ers gadael yr UE, rydym bellach yn agored i fwy o fiwrocratiaeth mewn perthynas â thollau. Yn ystod ein tymor Haf 2023, fe wnaethom logi llen llwyfan o Ffrainc ar gyfer ein cynhyrchiad o *Candide*. Aeth y cwmni a oedd yn gofalu am y broses tollau i ni allan o fusnes tra bod y llen ar y daith yn ôl i Ffrainc, gan olygu nad oes modd cael y llen o’r porthladd oherwydd y broses tollau. Mae hyn yn debygol o

arwain at gostau llogi uwch i ni oherwydd yr amser ychwanegol y bu'r llen yn ein meddiant, yn ogystal â chost mewnforio uwch a'r amser gweinyddu ar ein hochr i geisio datrys y sefyllfa. Ni fyddai hyn wedi digwydd pan oedd y DU yn aelod o'r UE oherwydd doedd y fiwrocratiaeth o amgylch tollau ddim yn bodoli.

Teithio o fewn yr UE

18. Bellach, mae llawer mwy o gyfyngiadau i gwmnïau o'r DU sy'n teithio o fewn yr UE nag yr oedd pan oeddem yn aelod o'r UE a hynny'n rhannol oherwydd rheolau masnach arforol. Ystyr masnach arforol yw llwytho a dadlwytho nwyddau o fewn un wlad gyda cherbyd wedi'i gofrestru mewn gwlad arall. Mae rheolau masnach arforol o fewn yr UE yn golygu bod cerbydau'r DU wedi'u cyfyngu o ran y nifer o weithiau y gallant stopio i lwytho/dadlwytho offer. O dan reolau'r UE, dim ond tair gwaith ar y mwyaf o fewn cyfnod o saith diwrnod y gall cerbyd cofrestredig o'r DU gymryd rhan mewn masnach arforol yn yr UE. Un ffordd o oresgyn hyn fyddai cyflogi gyrrwr lori llawrydd yn yr UE i barhau â'r daith ar ôl i ni gyrraedd tir mawr Ewrop, ond mae hyn yn cyfyngu ar ein hyblygrwydd, yn cynyddu ein costau, ac mae risg uwch o gymhlethdodau.

19. Yn ogystal â chyfyngiadau, costau a biwrocratiaeth mewn perthynas â masnach arforol a thrwyddedau, mae costau cludiant bellach yn llawer uwch er na ellir priodoli hynny o reidrwydd i Brexit yn uniongyrchol – mae'n ganlyniad cyffredinol o gostau ynni uwch a'r rhyfel sy'n parhau yn yr Wcrain. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyflwyno dyfynbris ar gyfer taith Cerddorfa i Sbaen, ond roedd y costau cludiant a thryciau yn unig yn golygu nad oedd y daith yn hyfyw.

20. Ers gadael yr UE, mae offerynnau cerdd bellach yn destun trwyddedau mewnforio ac allforio o dan CITES (Y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol o Rywogaethau o Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn Perygl). Mae hyn yn ymwneud yn benodol â deunyddiau a ddefnyddir i wneuthur offerynnau, megis coedwigoedd sydd mewn perygl neu ddeunyddiau o anifeiliaid gwarchodedig (ifori yn bennaf). Yn achos ymweliadau diweddar Cerddorfa WNO â Brno a Phrag, roedd yn rhaid i ni gynnal asesiad o ddeunyddiau holl offerynnau'r Gerddorfa gyda hynny'n golygu cost i'r Cwmni. Ymgysylltwyd ag arbenigwr neu 'luthier' i asesu'r offerynnau llinynnol, a gofynnwyd i gerddorion offerynnau gwynt mofyn cyngor eu gwerthwyr a'u gweithgynhyrchwyr. Os oedd yr offerynnau'n rhydd o CITES, cawsom lythyrau eithrio i'w clirio ar gyfer teithio. Os oedd rhywogaethau sydd mewn perygl wedi cael eu canfod yng ngwneuthuriad yr offerynnau, roedd yn rhaid i ni wneud cais am Dystysgrif Offerynnau Cerddorol. Er nad oes ffi am offerynnau cerdd, roedd yn cymryd 30 diwrnod i'r tystysgrifau hyn gael eu cymeradwyo a'u dychwelyd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac roedd yr holl broses yn golygu buddsoddiad enfawr o ran gwaith ac amser.

Gwasanaethau Theatrig Caerdydd (CTS)

21. Mae Gwasanaethau Theatrig Caerdydd (CTS) yn weithdy adeiladu golygfeydd sy'n eiddo i WNO sy'n llunio setiau theatr a golygfeydd arddangos ar gyfer cwmnïau ledled y DU, Ewrop a thu hwnt. Mae cleientiaid CTS yn cynnwys tai opera, cwmnïau cynyrchiadau theatr a digwyddiadau mawr, ac mae'r cleientiaid hyn yn aml yn cysylltu â ni i adeiladu setiau a chynyrchiadau i'w cludo i Ewrop. Mae ein hymadawiad â'r UE wedi'i gwneud hi'n llawer anoddach i CTS gystadlu ar y farchnad Ewropeaidd oherwydd byddai angen i gleient sy'n seiliedig yn yr UE nawr dalu treth fewnforio ar nwyddau gennym ni. Er enghraifft, fe wnaethom golli allan ar waith gwerth tua £500k yn ddiweddar oherwydd ein bod ni'n rhy ddrud. Mae costau deunydd crai hefyd wedi cynyddu'n gyffredinol. Mae pren er enghraifft, sy'n cael ei ddefnyddio gan CTS i adeiladu setiau, bellach yn rhatach i'w brynu o'r Unol Daleithiau nag o Sgandinafia oherwydd treth ar eitemau'r UE a rhwyddineb mewnforio.

22. Rydym yn parhau i chwilio am atebion sy'n golygu y gallwn barhau i wasanaethu marchnad yr UE yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i ni a hwythau, ond ychydig o ganllawiau sydd ar gael ar ffyrdd o wneud hyn mewn modd cynaliadwy. Mewn sawl ffordd, mae bellach wedi dod yn haws i ni gyflenwi i farchnad yr Unol Daleithiau yn hytrach na marchnad yr UE, er gwaethaf agosrwydd daearyddol yr UE o'i gymharu â'r UD.

**Argaeledd canllawiau a chymorth i'r sector sy'n ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE;**

23. Wrth chwilio am arweiniad a chymorth, rydym wedi edrych i'r sector yn bennaf oherwydd mae'n cynnig arweiniad a chefnogaeth fwy ymarferol na'r hyn sydd ar gael o ffynonellau swyddogol Llywodraeth y DU. Mae'r sefydliadau y byddem yn cysylltu â nhw yn cynnwys Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain a Siambr Fasnach a Diwydiant Llundain.
24. Yr hyn sy'n sylweddol ddiffygiol o ran gwybodaeth ac arweiniad yw a oes ffyrdd haws, llai caeth na'r system drwydded i ni weithredu dramor.

**Yr effaith ar fynediad at raglenni a rhwydweithiau ariannu**

25. Er nad oes gennym unrhyw enghreifftiau penodol o gyllid yn cael ei wrthod, nac o arian yn anhygyrch i ni oherwydd Brexit, yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yw bod gan unigolion a busnesau lai o incwm i'w wario erbyn hyn. Rydym wedi sylwi bod gan Ymddiriedolaethau nid yn unig lai o arian i'w roi, ond hefyd bod mwy a mwy o gystadleuaeth am yr arian hwn.

26. Gallai'r effaith ehangach hon ar y pwrs gael ei briodoli i ystod o ffactorau, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, ond derbynnir yn gyffredinol bod hyn wedi gwaethygu i raddau oherwydd Brexit.

**Unrhyw newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r UE a allai wella gweithio trawsffiniol i'r sector diwylliannol**

27. Rydym yn llwyr gefnogi'r alwad am gytundeb hepgor fisa gyda'r Undeb Ewropeaidd (a chytundebau dwyochrog â gwladwriaethau unigol yr UE) fel nad oes angen trwyddedau gwaith ar artistiaid i weithio yn yr UE. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 10, byddai hyn yn ei dro yn cefnogi'r sector diwylliannol yma yn y DU.

28. Byddem yn annog ac yn cefnogi eithriadau i gynyrchiadau theatrig gael eu cludo i'r UE ar yr amod eu bod yn cael eu dychwelyd i'r DU - e.e. ar gyfer llogi cynhyrchiad.

29. Byddem yn croesawu trafodaeth ac atebion ar gyfer ffordd o deithio a chludo cynyrchiadau yng ngwledydd yr UE sy’n llai caeth na'r opsiynau cyfredol sydd ar gael (trwydded ATA neu fasnach arforol).

**Gwybodaeth ychwanegol**

30. Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi rhwystro nid yn unig cwmnïau opera, ond y diwydiant adloniant yn ei gyfanrwydd rhag perfformio'n hawdd yn Ewrop. Mae unrhyw gwmni theatrig neu berfformio sydd â'r gallu i deithio bellach yn wynebu costau, amser a biwrocratiaeth cynyddol, ac mae hyn yn naturiol yn symud y ffocws i ardaloedd eraill megis Asia a'r Unol Daleithiau. Mae hefyd yn golygu bod marchnad adloniant y DU yn dod yn fwyfwy anodd i’w gwasanaethu.

31. Rydym hefyd yn arbennig o bryderus am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl ifanc a'r rhai o gefndiroedd incwm is sy'n ceisio sefydlu gyrfaoedd yn sector y celfyddydau. Ynghyd â’r lleihad yn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg gerddorol mewn ysgolion a'r toriadau i gyllid y celfyddydau yn fwy cyffredinol, rydym yn ofni bod hyn yn gwneud y sector yn yrfa sydd ond yn cael ei dewis gan yr ychydig sy'n gallu fforddio cefnogi eu hunain yn unig.